# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2013-2014

Mae Adroddiad Blynyddol y Cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **7 Mai 2014**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y Cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynghorydd:** | DAVID PHILLIPS | Adran Etholiadol: | Y CASTELL |

| | |
|---|---|
| **Portffolio Cabinet/Gweithrediaeth** | Arweinydd y Cyngor ac<br>Aelod y Cabinet dros Wrthdlodi |

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Cynhaliwyd ein prif gymorthfeydd cyhoeddus, sy'n dal i gael eu cynnal, bob bore Sadwrn mewn mannau rheolaidd amrywiol ar draws y ward yn y Marina, Sandfields, Brynmelin a Dyfaty. Euthum i gymorthfeydd yn ôl fy nghyfrifoldebau fel arweinydd a chyfrifoldebau allanol y cyngor. Ar ben hynny, rwyf wedi mynd i gyfarfodydd preswylwyr amrywiol a chyfarfodydd PACT (Heddlu a Chymunedau Gyda'i Gilydd) ar draws y ward.

Rwyf wedi ymateb i nifer o faterion a chwynion preswylwyr. Dyma'r prif faterion: Strydlun, (sbwriel, baw cŵn, casgliadau gwastraff, llwybrau cerdded a llinellau melyn er enghraifft), ymddygiad gwrthgymdeithasol a phroblemau sy'n ymwneud ag alcohol a chyffuriau a materion tai (dyrannu a chyflwr). Er nad wyf yn aelod o'r pwyllgor cynllunio ardal perthnasol, ymddiddorais yn fawr â materion cynllunio ward a chynrychioli pryderon preswylwyr yn y pwyllgor ardal a'r prif bwyllgorau, neu rwyf wedi cyflenwi i gydweithwyr a oedd yn absennol ar fusnes arall y cyngor etc. Hefyd, euthum i gyfarfod llawn y Pwyllgor Cynllunio. Euthum i gyfarfodydd grwpiau clwstwr Cymunedau'n Gyntaf yn y Castell.

Roeddwn ac rwyf o hyd yn llywodraethwr yng Ngholeg Gŵyr.

Gyda chydweithwyr ward, rwyf wedi bod yn rhan o ymgyrchoedd ward, er enghraifft, y problemau ymddygiad gwrthgymdeithasol a ddaeth o ganlyniad i'r cyfleusterau cyffuriau ac alcohol niferus yn y ward.

Gyda'm cydweithwyr, roeddwn yn rhan o ddatblygu Ardal Adnewyddu Cymdogaeth Sandfields.

## Adran 2: Presenoldeb y Cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau Cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y Cyngor. Mae Cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Penodiadau | 22 | / | 25 | 88 | % |
| Y Cabinet | 17 | / | 18 | 94 | % |
| Pwyllgor Arfarnu a Thaliadau Cydnabyddiaeth y Prif Weithredwr | 2 | / | 2 | 100 | % |
| Fforwm Cynghorau Cymuned/Tref | 0 | / | 3 | 0 | % |
| Gweithgor y Cyfansoddiad | 0 | / | 1 | 0 | % |
| Y Cyngor | 14 | / | 15 | 93 | % |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu | 4 | / | 8 | 50 | % |
| Fforwm Cyswllt Myfyrwyr | 1 | / | 3 | 33 | % |
| CYFFREDINOL | 60 | / | 75 | 80 | % |

Dangosir uchod % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgor.

Yn ogystal â'r holl gyfarfodydd uchod, fel arweinydd, euthum i nifer mawr o gyfarfodydd allanol, rhai ffurfiol ac anffurfiol, yn y cyngor ac yn allanol ar fusnes y cyngor, megis cyfarfodydd (ymhlith pethau eraill) â Llywodraeth Cymru a'i gweinidogion, BGLl (Bwrdd Gwasanaethau Lleol), Bwrdd Dinas-ranbarth, ERW (Ein Rhanbarth ar Waith) a phroses gwella addysg y cyngor yn ogystal â rhai sefydliadau allanol arwyddocaol megis CLlLC (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru) ac CLlL (Cymdeithas Llywodraeth Leol), Fforwm Treftadaeth y Byd, busnesau, y trydydd sector ynghyd â llawer o ymrwymiadau siarad mewnol ac allanol.

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r Cynghorydd**

Arweinydd y Cyngor ac roeddwn yn gyfrifol am Bortffolio'r Cabinet dros Wrthdlodi.

Mae cyfrifoldebau'r cyntaf yn sylweddol ac nid oes digon o le yn yr adroddiad hwn i'w disgrifio'n fanwl. Fodd bynnag, yn ogystal â'r cyfarfodydd a ddisgrifiwyd (yn rhannol) rywle arall yn yr adroddiad hwn, rwyf wedi arwain ar ddatblygu polisi'r cyngor a chyflwyno blaenoriaethau polisi'r cyngor sy'n deillio o ymrwymiadau ein Maniffesto. Roedd hyn yn cynnwys nifer mawr o gyfarfodydd ac ymchwil sylweddol. Yn amlwg, mae'n wireb bod yn rhaid i mi 'arwain', ond mae'n rhaid i hyn olygu yn yr awdurdod a'r tu allan iddo. O ganlyniad, yn fy marn i, un o'm prif gyfrifoldebau yw bod yn llysgennad gweithgar, gan gynrychioli'r cyngor i'r byd y tu allan (o fewn ffiniau'r awdurdod a'r tu allan iddynt) ac adlewyrchu'r byd i'r cyngor. O ganlyniad, yn rheolaidd rwy'n ymweld ag ysgolion (yr arweinydd cyntaf i wneud hynny), busnesau a grwpiau busnes, achlysuron dinesig a chymdeithasol, sefydliadau gwirfoddol a phroffesiynol, chwaer-gynghorau, Llywodraeth Cymru a chenedlaethol a llawer mwy. Mae hyn yn mynd â llawer o'm hamser. Fodd bynnag, rwy'n credu bod gan yr awdurdod, erbyn hyn, y proffil mwyaf blaenllaw ac arwyddocaol ers sawl blwyddyn. Rwy'n ystyried ei fod bellach yn perfformio'n agosach at ei alluoedd ac wedi dod yn gyngor i gystadlu â'r goreuon. Rydym bellach ar flaen y gad mewn sawl maes, sef craffu, troseddu ieuenctid, NEET (pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant), gwaith gwrthdlodi, CCUHP (Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn) a sawl un arall.

Dangosir model craffu Abertawe gan Lywodraeth Cymru fel enghraifft o arfer gorau neilltuol. Ein rhaglen troseddu ieuenctid yw sail y rhaglen a sefydlir bellach gan Lywodraeth San Steffan, ac ystyrir bod ein llwyddiant mewn lleihau nifer y bobl 16-18 oed NEET hefyd yn fodel o arfer gorau.

Dechreuais ac arweiniais y cynnig i Abertawe fod yn Ddinas Diwylliant y DU.

O ran portffolio'r Cabinet, sef gwrthdlodi, roeddwn ac rwyf o hyd yn Hyrwyddwr Gwrthdlodi'r cyngor ac rwy'n gyfrifol am ddatblygu newid yn y ffordd rydym yn mynd i'r afael â gwaith gwrthdlodi a darparu cysylltiadau ar draws adrannau a sefydliadau allanol. Gan ddefnyddio model gwario ‘Total Place’, rwy'n ceisio dod â'r holl asiantaethau yn y maes at ei gilydd i ddarparu ymosodiad â mwy o ffocws ar leihau effeithiau tlodi ac amddifadedd. Prosiect tymor hir yw hwn, o leiaf genhedlaeth os nad dwy, cyn y gellir cael newid sylweddol a chynaliadwy.

### Adran 4: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Fel arweinydd y cyngor, roeddwn ac rwyf o hyd yn aelod o sawl corff, yr wyf yn cadeirio rhai ohonynt. Y rhai mwyaf sylweddol o'r rhain yw ERW, y BGLI a Dinas-ranbarth Bae Abertawe.

Cynrychiolais Abertawe ar ERW, yr asiantaeth gwella addysg ranbarthol, sy'n gyfrifol am gefnogi a chyfeirio gwelliant addysg ar draws rhanbarth De-orllewin Cymru.

Cadeiriais BGLI Abertawe, sy'n cyfarfod yn chwarterol, ac rwy'n dal i'w gadeirio. Comisiynais adolygiad sylweddol o'i weithrediad, sy'n ceisio dod â'r holl aelod-asiantaethau at ei gilydd - GIG (Gwasanaeth Iechyd Gwladol), heddlu, tân, Canolfan Byd Gwaith, prifysgolion a cholegau, y trydydd sector ac yn y blaen y tu ôl i gyfres o ganlyniadau cadarn a chynaliadwy a rennir, gan ddarparu ateb cyfannol i'r problemau mae Dinas a Sir Abertawe'n eu hwynebu.

Cadeiriais Fwrdd Dinas-ranbarth Bae Abertawe (sy'n cyfarfod yn ffurfiol bob yn ail fis gyda chyfarfodydd anffurfiol fel y bo angen), ac sy'n cynnwys ardaloedd cynghorau Castell-nedd Port Talbot, Abertawe, Caerfyrddin a Phenfro. Mae'n cynnwys cynrychiolwyr o'r cynghorau hynny a chynrychiolwyr arwyddocaol sector busnes o'r ardaloedd hynny. Rydym yn y camau cynnar o hyd, ond rydym wedi nodi model datblygiadol a rennir, gyda phrosiectau i sbarduno economi'r rhanbarth cyfan.

### Adran 5: Dysgu a Datblygu

Euthum i'r sesiynau hyfforddi canlynol:

28/10/2013 - Adolygiad Datblygiad Personol
Dyddiadau amrywiol – Academi Arweinyddiaeth CLIL

Mae gennyf brofiad sylweddol ar draws disgyblaethau wedi gweithio'n broffesiynol yn y sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector. Roeddwn yn swyddog yn CThEM (Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi) am ugain mlynedd, wedyn yn rheolwr treth gydag un o'r cwmnïau cyfrifeg arweiniol ac yn brif weithredwr elusen genedlaethol. Mae gennyf ddiddordeb penodol ac arbenigedd mewn materion llywodraethu.

### Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill

Rwy'n Gymrawd o'r Gymdeithas Frenhinol y Celfyddydau a Busnes.

### Adran 7: Taliadau Cydnabyddiaeth i Gynghorwyr

Cyflog aelod uwch - £52,700 y flwyddyn.

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0
Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 28.07.14 |